**Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar**

**Blant sy'n Derbyn Gofal**

**Dydd Mercher 15 Tachwedd 2017**

**12.30–13.30**

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol:**

Lee Waters AC - Cadeirydd

**Yn bresennol:**

Tim Crahart - Rheolwr Cymorth Busnes, Voices From Care Cymru - (cymerwr cofnodion)

Beth Beynon - Stepping Stones

Mary Clune - BASW

Deborah Jones - Voices From Care Cymru

Y Parchedig Philip Mangham - y Gwasanaeth Addysg Gatholig

Sean O'Neil - Plant yng Nghymru

Emma Sullivan - Plant yng Nghymru

Menna Thomas - Barnardo's Cymru

Rachael Vaughan - Voices From Care Cymru

Catriona Williams - Cyd-Gadeirydd Voices From Care Cymru/Plant yng Nghymru

Charlotte Wooders - Rhwydwaith Maethu Cymru

**Cafwyd ymddiheuriadau gan:**

David Melding AC - Cadeirydd

Tom Davies - Cymdeithas y Plant

Sharon Lovell - NYAS

Leoni Oxenham - Cynghorydd Polisi, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru

Simon Thomas AC

1. **Croeso a chyflwyniad gan y Cadeirydd**

Agorodd LW y cyfarfod ac eglurodd y byddai'n cadeirio, gan fod DM yn sâl.

Eglurodd hefyd na fyddai Huw Irranca-Davies AC yn rhan o'r grŵp mwyach gan ei fod bellach y Gweinidog newydd ar gyfer Plant a Gofal Cymdeithasol.

2. **Cofnodion**

Cytunodd PM a DJ fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2017 yn gywir.

3. **Materion yn codi**

Roedd SL yn fod i wneud cyflwyniad i'r grŵp ond roedd yn rhaid iddi ymddiheuro. Cynigiwyd aildrefnu'r cyflwyniad ar gyfer cyfarfod nesaf y grŵp.

**Cam gweithredu - SL i gyflwyno i'r grŵp nesaf**

Gofynnwyd am y wybodaeth ddiweddaraf am Gronfa Dewi Sant. Mae'r gronfa wedi mynd i Awdurdodau Lleol y mae'n ofynnol iddynt adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru. Nid oedd y rhai a oedd yn bresennol yn ymwybodol o hyn.

**Cam gweithredu - LW i ysgrifennu at y gweinidog newydd i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am Gronfa Dewi Sant.**

4. **Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

Dywedodd LW wrth y grŵp fod y pwyllgor yn cymryd ei amser i gael yr ymchwiliad yn iawn.

Mae Adam Price AC a Vikki Howells AC bellach ar y Pwyllgor a bydd LW yn parhau'n rhan ohono. Mae'r Pwyllgor yn ystyried trefnu cyfres o sesiynau tystiolaeth. Byddent hefyd yn hoffi cael safbwynt cylch oes plentyn o'r system. Dywedodd MT fod Barnardo's yn rhyddhau papur ar Ofal a Phobl Ifanc yn yr wythnos sydd i ddod. Amlygodd yr angen am ddull amlasiantaeth. Byddai Barnardo's hefyd yn hoffi gweld ffocws ar bobl ifanc yn ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

**Cam gweithredu - MT i ddosbarthu'r papur Gofal a Phobl Ifanc i'r grŵp**

Cododd PM y mater nad oes cysondeb ledled Cymru. Mae pedwar Consortiwm Addysg ond nid ydynt yn cyd-fynd ag awdurdodau'r heddlu na ffiniau iechyd. Dywedodd LW fod Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn anghysondeb mewn materion ffiniol ond bod hynny'n cael sylw. Dywedodd CW fod atebolrwydd yn broblem gyda chonsortia.

Cododd DJ y mater o ran plant yn cael eu tynnu oddi wrth rieni ifanc oherwydd eu statws gofal. Mae VFCC wedi cynnal ymchwil bwrdd gwaith i'r maes hwn. Dywedodd hefyd nad oes digon o waith ymchwil i ddeall y trawma a achosir drwy gael eich rhoi yn y system ofal.

Dywedodd DJ mai dyma'r tro cyntaf i werth a phobl ifanc gael eu hystyried.

Dywedodd LW ei fod wedi cael trafodaeth gyda Chomisiynydd Plant Cymru a chafodd wybod bod pobl ifanc yn teimlo eu bod yn nwyddau. Cododd hyn y cwestiwn a ddylai cwmnïau gofal preifat fod yn rhan o'r gwaith o ddarparu gofal.

Dywedodd AC fod cymhelliant ariannol anweledig i gwmnïau preifat ddal eu gafael ar bobl ifanc am gyfnod hwy nag sydd ei angen.

Dywedodd PM fod angen inni roi'r gorau i drin pobl ifanc yn wahanol. A oes problem o achosi trawma eto o fewn gwasanaethau gofal? A oes gan bobl ifanc broblemau iechyd meddwl neu a ydynt yn ymateb i wasanaethau gwael?

Roedd MC yn pryderu, er mwyn lleihau costau, y byddai cwmnïau preifat yn defnyddio staff ar gyflog gwael, a oedd hefyd yn cael eu hyfforddi'n wael ac yna'n darparu gwasanaethau gwael.

Byddai DJ yn croesawu gwaith craffu ar gwmnïau preifat.

**Cam gweithredu - DJ i anfon papur at LW ar y sector preswyl preifat.**

## 5. Grŵp Cynghori'r Gweinidog

Dechreuodd LW drwy ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y MAG.

Dywedodd DJ fod Voices From Care Cymru (VFCC) yn cydgynhyrchu canllawiau ar rianta corfforaethol fel rhan o gynllun gwaith MAG.

Dywedodd CW ei fod yn grŵp mawr ac yn ansicr sut roedd rhanddeiliaid yn cymryd rhan. Teimlai y dylai fod mwy o gyfle i bobl roi eu barn. Dywedodd SO'N fod cyfle i gynrychiolwyr y trydydd sector fod yn is-gadeirydd. Cafwyd cyfarfod y diwrnod blaenorol a gadeiriwyd gan Phil Evans, lle rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen. Nodwyd y bydd llawer o'r gweithgareddau presennol yn dod i ben ym mis Ebrill 2018. Cynhelir cyfarfod nesaf MAG ar 7 Rhagfyr lle ceir y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun cyfan.

Mae dyhead gan Lywodraeth Cymru i lai o blant gael eu derbyn i'r system ofal. Nid yw addysg, y llysoedd a'r system cyfiawnder ieuenctid yn cael eu pwysleisio'n gryf yn y cynllun presennol. Nodwyd fod gofal cydberthnasau yn faes y mae angen ei ddatblygu ymhellach o fewn y cynllun.

Rhoddodd MC ac AC adborth nad oedd gan Weithwyr Cymdeithasol unrhyw wybodaeth am waith y MAG. Nid oeddent yn gyfarwydd â chylch gorchwyl na nodau'r grŵp.

Roedd LW yn awyddus i glywed unrhyw faterion mewn perthynas â'r MAG.

**Cam gweithredu - rhoi adborth i LW ar y MAG**

Dywedodd SO'N fod cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol yn hanfodol wrth lunio'r MAG.

Nodwyd hefyd y byddai cynrychiolaeth CAMHS ar y MAG yn werthfawr

**Cam gweithredu - LW i wirio a oes cynrychiolydd CAMHS ar y MAG.**

6. **Cyflwyniad a sesiwn holi ac ateb gan VFC ar gyswllt a diffyg cyswllt â brodyr a chwiorydd**

Rhoddodd Rachael Vaughan gyflwyniad ar gyswllt.

Dywedodd ES fod lles yn broblem, ac mae hyn yn cael ei godi gan bobl ifanc drwy'r amser. Gofynnodd AC a oedd unrhyw enghreifftiau o wytnwch yn cael ei ddatblygu drwy gysylltu â theulu/brodyr a chwiorydd. Credir na fu unrhyw waith ymchwil yn y maes hwn. Roedd y grŵp yn cydnabod pwysigrwydd dull sy'n seiliedig ar gryfderau. Dywedodd LW ei fod yn cael ei daro gan ba mor agored i niwed yr oedd pobl ifanc pan oedd yn mynychu digwyddiadau VFCC. Ychwanegodd DJ fod VFCC yn gwneud llawer o waith i droi'r stigma o ran cael profiad o'r system ofal a rhoddodd esiampl o'r digwyddiad Proud to be Me. Maent hefyd wedi cysylltu â'u chwaer-sefydliadau ledled y DU drwy'r prosiect Five Nations One Voice sydd hefyd yn gweithio ar fynd i'r afael â stigma.

Rhoddodd ES y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am ddarn o waith yr oedd CIW a VFCC yn arwain arno. Maent yn datblygu canllaw i bobl ifanc ar gyswllt â brodyr a chwiorydd a'u hawliau. Nodwyd fod gwahaniaethau yn eu hawliau gan ddibynnu a yw plant yn cael eu mabwysiadu neu'n derbyn gofal. Nododd ES hefyd fod problemau gyda gofalwyr sy'n frodyr neu'n chwiroydd, er enghraifft pan fo brawd neu chwaer yn gofalu am blentyn sydd wedyn yn cael ei fabwysiadu ac ni chaniateir iddynt gysylltu. Gall hyn fod yn drawmatig i'r ddau barti.

7. **Unrhyw fater arall**

Cododd MC y mater o ganlyniadau addysgol ar gyfer pobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal. Mae Gogledd Iwerddon wedi gweld cynnydd mawr mewn cyrhaeddiad academaidd. Mae DJ yn ymwybodol o ysgolion atodol cadarnhaol yn Sir Gaerfyrddin.

**Cam gweithredu - DJ i weld a allai rhywun o Ogledd Iwerddon neu Sir Gaerfyrddin gyflwyno i'r Grŵp Trawsbleidiol ar gyrhaeddiad addysgol**

8. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

DJ i gysylltu â David Melding ynglŷn â dyddiad y cyfarfod nesaf.

**CAM GWEITHREDU: DJ i gysylltu â David Melding**